Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn

# Dyluniad Manwl Adroddiad Cryno o'r Adborth

**Gorffennaf 2026**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad Manwl - Adroddiad Cryno o'r Adborth**

# Cynnwys


1. Pwrpas yr adroddiad hwn ....3

2. Crynodeb Gweithredol ....3

3. Dadansoddi'r adborth i'r dyluniad manwl ....3

4. Data meintiol ....4

5. Canfyddiadau allweddol ....8

6. Sesiwn Galw Heibio, Sinema Scala ....15

7. Casgliad ....17

8. Camau nesaf ....17

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad Manwl - Adroddiad Cryno o'r Adborth**

## 1. Pwrpas yr adroddiad hwn

Pwrpas yr adroddiad hwn yw crynhoi'r adborth a gafwyd o ran dyluniad manwl y Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn.Ni fydd yr adroddiad ei hun yn gwneud unrhyw argymhellion ynghylch y cynigion cyffredinol ond caiff safbwyntiau budd-ddeiliaid a chymuned ehangach Prestatyn eu hystyried wrth lunio dyluniad terfynol y cynllun.

## 2. Crynodeb Gweithredol

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi buddsoddi yn y Stryd Fawr, yn enwedig gwelliannau i balmentydd, plannu, arwyddion, edrychiad y parth cyhoeddus a mesurau sydd â'r bwriad o gynyddu nifer yr ymwelwyr. Fodd bynnag, codwyd pryderon sylweddol ynglŷn â chynigion ar gyfer rheoli traffig, newidiadau parcio, hygyrchedd, a'r effaith bosibl ar fusnesau lleol.

Roedd llawer o gyfranogwyr yn cefnogi gwelliannau ffisegol i ganol y dref ond yn mynegi awydd i gadw mynediad cyfleus a gofodau parcio. Dangosodd yr ymgynghoriad wahaniaeth clir rhwng cefnogaeth ar gyfer gwelliannau amgylcheddol / i'r parth cyhoeddus a gwrthwynebiad i newidiadau traffig a pharcio.

## 3. Dadansoddi'r adborth i'r dyluniad manwl

Rhannodd y Cyngor y dyluniad ar-lein; cyflwynodd luniadau a delweddau mewn sesiwn galw heibio yn Sinema Scala, a rhannodd luniadau yn Llyfrgell Prestatyn rhwng 3 Mehefin 2026 a 5 Gorffennaf 2026. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad cyhoeddus hefyd i gasglu adborth gan y cyhoedd ynglŷn â'r dyluniad manwl a gynigir ar gyfer y cynllun.

Cyflwynwyd 161 o ymatebion yn syth drwy dudalen we  Ymgynghoriadau Sir Ddinbych neu drwy lenwi holiaduron ar bapur. Derbyniwyd adborth ysgrifenedig hefyd gan fudd-ddeiliaid amrywiol, yn cynnwys Aelodau Etholedig, busnesau lleol a phreswylwyr.

## 4. Data meintiol

Casglwyd data i'n helpu ni i ddeall beth mae pobl yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi am y dyluniad manwl a gynigir ar gyfer Stryd Fawr Prestatyn.

| Math o Ymatebwyr | Nifer yr Ymatebion |
|---|---|
| Byw a gweithio / wedi ymddeol ym Mhrestatyn | 92 |
| Byw ym Mhrestatyn, gweithio yn rhywle arall | 48 |
| Byw mewn pentrefi cyfagos | 9 |
| Ymweld o rywle arall yn Sir Ddinbych | 4 |
| Gweithio ym Mhrestatyn, byw yn rhywle arall | 4 |
| Cynghorydd/Cyngor Tref/AoS/AS | 3 |
| Ymwelydd â'r ardal o du allan i Sir Ddinbych | 1 |

### C1. Ydych chi'n hoffi'r dyluniad cyffredinol ar gyfer y cynllun?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 57 | 35 |
| Nac ydw | 58 | 36 |
| Ddim yn gwybod | 42 | 27 |
| Dim ymateb | 4 | 2 |

## C2. Ydych chi'n credu y bydd y Stryd Fawr yn edrych yn well ar ôl y newidiadau?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 56 | 35 |
| Nac ydw | 46 | 29 |
| Ddim yn gwybod | 29 | 17 |
| Arall – sylwadau | 30 | 19 |

## C3. Ydych chi'n cefnogi'r palmentydd a'r deunyddiau arfaethedig?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 98 | 61 |
| Nac ydw | 32 | 20 |
| Ddim yn gwybod | 8 | 5 |
| Arall – sylwadau | 23 | 14 |

## C4. Ydych chi eisiau mwy o blanhigion a gwyrddi?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 114 | 71 |
| Nac ydw | 24 | 15 |
| Ddim yn gwybod | 4 | 2 |
| Arall – sylwadau | 19 | 12 |

## C5. Meinciau - a oes digon ac yn y lleoliadau cywir?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Oes | 79 | 49 |
| Nac oes | 21 | 13 |
| Ddim yn gwybod | 25 | 17 |
| Arall – sylwadau | 34 | 21 |

## C6. Fyddech chi'n defnyddio'r lleoedd newydd i eistedd / i gymdeithasu / ar gyfer digwyddiadau?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Byddwn | 66 | 41 |
| Na fyddwn | 58 | 36 |
| Ddim yn gwybod | 21 | 13 |
| Arall – sylwadau | 16 | 10 |

## C7. Celf gyhoeddus, pyrth, polion baneri, blwch ffôn a Pulse Hubs

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 58 | 36 |
| Nac ydw | 47 | 29 |
| Ddim yn gwybod | 14 | 9 |
| Arall – sylwadau | 42 | 26 |

**Cynllun o Welliannau i Barth Cyhoeddus Stryd Fawr Prestatyn**
**Dyluniad Manwl - Adroddiad Cryno o'r Adborth**

## C8. Ydych chi'n hapus â'r cynigion i reoli traffig?

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 36 | 22 |
| Nac ydw | 69 | 43 |
| Ddim yn gwybod | 26 | 16 |
| Arall – sylwadau | 30 | 19 |

## C9. Effaith treial traffig dwyffordd ar Ffordd y Bont

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Mae wedi helpu | 36 | 23 |
| Nid yw wedi helpu | 86 | 53 |
| Ddim yn gwybod | 7 | 4 |
| Arall – sylwadau | 32 | 20 |

## C10. Gwrthdroi llif traffig ar waelod y Stryd Fawr

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Bydd hyn yn helpu | 38 | 24 |
| Ni fydd hyn yn helpu | 77 | 48 |
| Ddim yn gwybod | 18 | 11 |
| Arall – sylwadau | 28 | 17 |

### C11. Symud gofodau parcio o'r Stryd Fawr i strydoedd ochr

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw | 62 | 39 |
| Nac ydw | 56 | 35 |
| Ddim yn gwybod | 15 | 9 |
| Arall – sylwadau | 28 | 17 |

### C12. Cynigion ar gyfer parcio echelon

| Ymateb | Nifer yr Ymatebion | % yr Ymatebion |
|---|---|---|
| Ydw / Derbyn y cynnig | 72 | 45 |
| Nac ydw | 19 | 12 |
| Ddim yn gwybod | 31 | 19 |
| Arall – sylwadau | 20 | 12 |
| Dim ymateb | 19 | 11 |

# 5. Canfyddiadau allweddol

Mae'r canlynol yn ystod o ganfyddiadau a sylwadau a dderbyniwyd gan yr ymatebwyr, sy'n ein helpu ni i ddeall beth maent yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi am y dyluniad manwl a gynigir ar gyfer Stryd Fawr Prestatyn.

## 5.1 Cefnogaeth Gyffredinol ar gyfer Buddsoddi yng Nghanol y Dref

Thema gyson drwy gydol yr ymgynghoriad oedd gwerthfawrogiad am y buddsoddiad i Stryd Fawr Prestatyn. Roedd yr ymatebwyr yn croesawu:

- Rhoi wyneb newydd ar ffyrdd a phalmentydd newydd.
- Gwella golwg y Stryd Fawr.
- Mwy o blanhigion a gwyrddi.
- Cysylltiadau gwell rhwng Parc Manwerthu Parc Prestatyn a'r Stryd Fawr.
- Mannau cyhoeddus ac ardaloedd cymdeithasol newydd.
- Gwella cyfeirbyst ac arwyddion.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- *"Mae'r dyluniad yn hardd a bydd yn gwella'r Stryd Fawr yn arw."*
- *"Mae unrhyw beth sy'n gwella golwg a theimlad y Stryd Fawr yn dda."*
- *"Mae'n braf gweld bod Sir Ddinbych yn buddsoddi ym Mhrestatyn."*

Dywedodd llawer o ymatebwyr y byddai'r Stryd Fawr yn elwa o fod yn fwy deniadol, yn fwy gwyrdd, ac yn fwy croesawgar i breswylwyr ac ymwelwyr.

## 5.2 Planhigion a Gwyrddni

Roedd hon yn un o'r elfennau a groesawyd fwyaf yn y cynnig. Amlygodd y sylwadau cefnogol:

- Awydd am fwy o goed a phlanhigion.
- Gwella edrychiad.
- Creu amgylchedd ysgafnach a mwy deniadol.
- Cyfraniad at fioamrywiaeth a chreu lleoedd.

Fodd bynnag, codwyd pryderon am y canlynol:

- Cyfrifoldebau cynnal a chadw hirdymor.
- Fandaliaeth posibl.
- Effaith gwreiddiau coed ar balmentydd ac adeiladau cyfagos.
- Cynwysyddion plannu yn creu rhwystrau i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a sgwteri symudedd.
- Cynllun chynnal a chadw ffurfiol i sicrhau bod y planhigion yn parhau i fod yn ddeniadol yn y dyfodol.

## 5.3 Palmentydd a Deunyddiau

Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi gosod palmentydd newydd ac yn ystyried bod y wynebau presennol yn hen, yn anwastad neu mewn cyflwr gwael. Roedd sylwadau cadarnhaol yn cynnwys:

- Gwella edrychiad.
- Parth cyhoeddus o ansawdd gwell.
- Cyfle i ddisodli'r palmentydd sydd wedi'u difrodi.

Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Wynebau ithfaen yn mynd yn llithrig pan maent yn wlyb.
- Addasrwydd ar gyfer trigolion hŷn.
- Hygyrchedd i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.
- Gwytnwch a chynnal a chadw yn yr hirdymor.

## 5.4 Dodrefn Stryd, Celf Gyhoeddus a Nodweddion Newydd

### 5.4.1 Meinciau

Roedd y farn ar feinciau'n gymysg. Nododd y cefnogwyr:

- Byddai seddi ychwanegol yn syniad da ar Stryd Fawr serth.
- Byddai seddi'n cefnogi trigolion hŷn a'r rheiny sydd â phroblemau symudedd.
- Byddai meinciau'n annog pobl i dreulio mwy o amser yng nghanol y dref.

Roedd pryderon yn canolbwyntio ar:

- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Pobl ifanc yn ymgynnull.
- Materion yn ymwneud ag alcohol a chyffuriau.
- Cynnydd posibl mewn achosion o daflu sbwriel.

### 5.4.2 Celf Gyhoeddus a Nodweddion Porth

Cafwyd adborth cadarnhaol mewn perthynas â chelf gyhoeddus a nodweddion porth.

Roedd yr ymatebwyr yn croesawu:

- Nodweddion mynedfa yn cysylltu Parc Prestatyn â'r Stryd Fawr.
- Gwella hunaniaeth weledol Prestatyn.
- Cyfleoedd i ddathlu hanes lleol a diwylliant Cymru.
- Gwella cyfeirbyst.

Awgrymodd sawl ymatebydd y dylid cynnwys:

- Gwybodaeth am dreftadaeth leol.
- Cyfeiriadau at Glawdd Offa.
- Hyrwyddo digwyddiadau lleol.
- Byrddau dehongli yn egluro celf gyhoeddus bresennol a thirnodau.

### 5.4.3 Blwch Ffôn, Polion Baneri a Pulse Hubs

Yr elfennau hyn oedd yn peri'r pryder mwyaf ymhlith nodweddion y parth cyhoeddus. Roedd y themâu cyffredin yn cynnwys:

**Blwch Ffôn**

Rhywfaint o gefnogaeth:

- Nodwedd dreftadaeth ddeniadol.
- Safle posib ar gyfer cyfnewidfa lyfrau.

Pryderon:

- Fandaliaeth.
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Cynnal a chadw parhaus.

**Polion Baneri**

Roeddent yn aml yn cael eu hystyried fel ychwanegiad diangen ar y Stryd Fawr. Roedd pryderon yn cynnwys:

- Anhrefn weledol.
- Cynnal a chadw.
- Effeithiau sŵn posibl.

**Pulse Hubs**

Roedd hwn yn un o'r cynigion a gafodd y lleiaf o gefnogaeth yn y cynllun o welliannau i barth cyhoeddus.

Roedd pryderon yn cynnwys:

- Effaith weledol.
- Hysbysebu masnachol.
- Gwneud y stryd yn flêr.
- Cwestiynau ynghylch cynnal a chadw parhaus.

## 5.5 Rheoli Traffig

Daeth i'r amlwg mai rheoli traffig oedd yr agwedd fwyaf dadleuol o'r ymgynghoriad.

Roedd y prif faterion a godwyd yn cynnwys:

- Anfodlonrwydd sylweddol gyda threialon traffig diweddar.
- Pryderon ynglŷn â thagfeydd o amgylch Parc Prestatyn.
- Pryderon ynglŷn â mynediad i Tesco a'r orsaf betrol.
- Pryderon ynglŷn â hyd y ciwiau ar Ffordd y Bont.
- Pryderon ar gyfer diogelwch cerddwyr.
- Pryderon yn ymwneud â'r cynnig i wrthdroi llif traffig ar waelod y Stryd Fawr.

Roedd llawer o ymatebwyr yn dadlau bod y newidiadau traffig diweddar wedi gwaethygu tagfeydd yn hytrach na'u gwella. Roedd eraill o'r farn y gallai'r newidiadau wella llif traffig ond roedd angen cynnal profion pellach.

Gofynnodd sawl ymatebydd am gael newid yn ôl i drefniadau traffig blaenorol, tra bod eraill o blaid mesurau mwy radical yn cynnwys:

- Creu parthau cerddwyr yn unig ar rai darnau o'r Stryd Fawr.
- Systemau traffig unffordd.
- Newidiadau i drefniadau mynediad y parc manwerthu.
- Gwella cyfleusterau croesi.

## 5.6 Parcio

Parcio oedd y pwnc a drafodwyd amlaf yn yr ymgynghoriad.

### 5.6.1 Gwrthwynebiad Cryf i Golli Parcio ar y Stryd

Roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn erbyn cael gwared neu adleoli lleoedd parcio presennol ar y Stryd Fawr. Y prif bryderon oedd:

- Effaith ar fusnesau annibynnol.
- Hygyrchedd i bobl hŷn.
- Hygyrchedd i ddeiliaid Bathodyn Glas.
- Cyfleustra ar gyfer ymweliadau byr.
- Gostyngiad posibl o ran nifer yr ymwelwyr.

Tynnodd sawl ymatebydd sylw penodol at y lleoedd parcio y tu allan i'r busnesau rhwng The Deli on the Hill a Morgan's, gan nodi bod cwsmeriaid yn aml yn galw heibio'n sydyn i gael yr hyn maent ei angen ac y gallai cael gwared ar y lleoedd parcio gael effaith negyddol ar fasnach.

### 5.6.2 Parcio Echelon

Roedd yr adborth a gafwyd ar y cynnig i gyflwyno lleoedd parcio echelon ar dop y Stryd Fawr yn gymysg:

Roedd cefnogwyr o'r farn:

- Byddai'n cynnal nifer y lleoedd parcio.
- Gallai wella'r gwaith rheoli traffig.

Roedd pryderon yn cynnwys:

- Bacio'n ôl ar allt.
- Materion diogelwch.
- Addasrwydd ar gyfer gyrwyr hŷn.
- Lleihau lled y ffordd.

## 5.7 Hygyrchedd a Chynhwysiant

Roedd hygyrchedd yn thema arwyddocaol yn yr adborth a gafwyd gan drigolion anabl ac eiriolwyr hygyrchedd. Roedd y prif bryderon yn cynnwys:

- Diffyg lleoedd parcio wedi'u nodi'n glir ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas ar ddarluniau'r ymgynghoriad.
- Ceisiadau am balmentydd lletach, goleddfau croes llai, cyrbau is ychwanegol a mynediad gwastad rhwng gofodau parcio a llwybrau troed.
- Pryderon y gallai cynwysyddion blodau, dodrefn stryd, polion baneri a blychau ffôn greu rhwystrau diangen i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn, defnyddwyr sgwteri symudedd a phobl â nam ar eu golwg.
- Pryderon ynglŷn â pherfformiad palmant bloc yn y tymor hir a gwreiddiau coed yn creu peryglon baglu.
- Ceisiadau am ystod ehangach o feinciau, yn cynnwys seddi gyda breichiau a seddi o uchderau amrywiol.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr y dylai hygyrchedd fod yn egwyddor cynllunio craidd yn hytrach nag ystyriaeth eilaidd a gofynnwyd bod canfyddiadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y dyluniad terfynol.

## 5.8 Adborth gan Fusnesau a Budd-ddeiliaid

Amlygodd adborth gan berchnogion busnesau lleol, budd-ddeiliaid canol tref ac Aelodau Etholedig y pryderon am effaith economaidd bosibl rhai agweddau ar y cynllun.

### 5.8.1 Cefnogaeth o Blaid Buddsoddi yn y Parth Cyhoeddus

Croesawyd y canlynol gan sawl ymatebydd:

- Gwella ansawdd y palmentydd a strydlun.
- Plannu a thirlunio ychwanegol.
- Cysylltiadau gwell rhwng y parc manwerthu a'r Stryd Fawr.
- Celf gyhoeddus a nodweddion yng nghanol y dref.
- Buddsoddiad cyffredinol yng nghanol tref Prestatyn.

### 5.8.2 Pryderon Busnesau Annibynnol

Codwyd pryderon cryf ynglŷn â'r canlynol:

- Cael gwared ar fannau parcio ger manwerthwyr annibynnol.
- Llai o gyfleustra ar gyfer cwsmeriaid arhosiad byr.
- Effeithiau posibl ar hyfywedd busnes.
- Mynediad ar gyfer danfoniadau a threfniadau gwasanaethu.
- Hygyrchedd i gwsmeriaid, yn enwedig trigolion hŷn.
- Mae angen gofodau parcio o flaen busnesau.

## 5.9 Awgrymiadau Dylunio Ychwanegol

Derbyniwyd nifer o awgrymiadau manwl i'w hystyried wrth ddatblygu'r dyluniad terfynol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Disodli byrddau gwybodaeth y dref sydd wedi'u difrodi.
- Sgrinio iardiau gwasanaeth ac ardaloedd blêr y tu ôl i fusnesau.
- Adolygu trefniadau parcio Church Lane i wella diogelwch cerddwyr.
- Cadw a diogelu meinciau coffa lle bo'n berthnasol.

- Ystyried plannu mwy o goed a gosod goleuadau addurnol.
- Rhesymoli annibendod stryd, arwyddion a dodrefn diangen.

# 6. Sesiwn Galw Heibio, Sinema Scala

Daeth dros 100 o bobl i'r sesiwn galw heibio a gynhaliwyd yn Sinema Scala ar 3 Mehefin 2026. Mae'n bwysig nodi na roddodd pob mynychwr sylwadau yn ystod y dydd, ond gofynnwyd i bawb gwblhau'r ymgynghoriad ar-lein i rannu eu barn.

Roedd yr adborth a gasglwyd yn ystod y sesiwn galw heibio i'r cyhoedd yn atgyfnerthu'n fras y themâu a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar-lein a'r datganiadau ysgrifenedig. Roedd cyfranogwyr yn cefnogi buddsoddi yn y Stryd Fawr ond yn mynegi pryderon ynglŷn â thraffig, parcio ac uchelgais gyffredinol y cynllun.

## 6.1 Themâu Allweddol

### 6.1.1 Creu Cyrchfannau a Chynyddu Nifer yr Ymwelwyr

Neges a oedd yn codi dro ar ôl tro oedd y dylai'r cynigion wneud mwy na gwella palmentydd ac edrychiad. Awgrymwyd y canlynol gan y cyfranogwyr:

- Gofodau ar gyfer marchnadoedd, perfformiadau a digwyddiadau cymunedol.
- Gofodau cyrchfan a seddi ar thema glan y môr.
- Gwelliannau i'r ardal ganolog i annog mwy o ddefnydd.
- Nodweddion porth cryf yn cysylltu'r parc manwerthu â'r Stryd Fawr.
- Hyrwyddo Clawdd Offa ac asedau treftadaeth lleol yn well.
- Ni fyddai gwella palmentydd yn unig yn denu mwy o ymwelwyr i'r dref.

### 6.1.2 Traffig a Theithio Llesol

Codwyd pryderon ynglŷn â'r canlynol:

- Treial traffig Ffordd y Bont.
- Tagfeydd presennol ar Ffordd Pendyffryn.
- Effeithiau posibl trefniadau unffordd ar Ffordd Tŷ Nant.
- Symudiadau traffig o amgylch y parc manwerthu.
- Pwysau datblygiad yn y dyfodol ar Ffordd Llys Nant.
- Gwella isadeiledd beicio.
- Llwybr mwy diogel at y traeth.

- Gwella cysylltiadau i gerddwyr rhwng Ffordd Pendyffryn, yr orsaf fysiau a'r Stryd Fawr.

### 6.1.3 Parcio

Roedd parcio'n parhau i fod yn bryder sylweddol. Amlygodd y rhai a oedd yn bresennol:

- Gwrthwynebiad i barcio echelon ar dop y Stryd Fawr.
- Ceisiadau i gadw neu gynyddu nifer y gofodau parcio ger busnesau annibynnol.
- Pryderon ynglŷn â chael gwared ar y lle parcio ger yr hen Ficerdy.
- Pryderon ynglŷn â bacio'n ôl a diogelwch gyrwyr.
- Disodli'r ardaloedd wedi'u tirlunio sy'n cael eu cynnig gyda lleoedd parcio ychwanegol.

### 6.1.4 Dodrefn Stryd a Nodweddion Canol Tref

Roedd y safbwyntiau ar ddodrefn stryd arfaethedig yn gymysg. Roedd adborth cadarnhaol yn cynnwys:

- Cefnogaeth ar gyfer y cynnig i osod blwch ffôn coch.
- Ceisiadau am seddi gyda chefn a dyluniad hygyrch.
- Diddordeb mewn nodweddion arloesol megis mannau gwefru USB.

Roedd pryderon yn cynnwys

- Posibilrwydd o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â meinciau.
- Diffyg cefnogaeth ar gyfer polion baneri.
- Ceisiadau cryf am finiau sbwriel gyda chaeadau sy'n diogelu rhag gwylanod.
- Ceisiadau am arwyddion gwell i gyfeirio at y parc manwerthu.
- Gorsafoedd ail-lenwi dŵr cyhoeddus.
- Nodweddion sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt, megis ffynonellau dŵr ar gyfer adar a draenogod.

### 6.1.5 Tirlunio, Coed a Chelf Gyhoeddus

Mynegwyd cefnogaeth ar gyfer:

- Plannu coed ychwanegol.
- Trefniadau gwell i gynnal a chadw a rheoli coed presennol.
- Gwaith celf cyhoeddus wedi'i greu gan artistiaid lleol.

- Mwy o ddefnydd o blanhigion yn hytrach na strwythurau addurnol megis polion baneri.
- Ail-leoli'r gwaith celf cyhoeddus presennol, yn cynnwys y cerflun o'r Fam a'r Babi i leoliadau mwy amlwg yng nghanol y dref.

Bydd yr holl sylwadau ac arsylwadau a rannwyd ar y dydd yn helpu i fod yn sail i'r dyluniad terfynol ynghyd â'r adborth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad.

## 7. Casgliad

Mae'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth gref ar gyfer buddsoddi yn Stryd Fawr Prestatyn a chytundeb eang y byddai canol y dref yn elwa o welliannau i balmentydd, tirlunio, gofodau cyhoeddus ac edrychiad cyffredinol.

Fodd bynnag, mae pryderon sylweddol yn parhau ynglŷn â:

- Chynigion rheoli traffig.
- Newidiadau i ddarpariaeth a lleoliad gofodau parcio.
- Hygyrchedd a dyluniad cynhwysol.
- Effeithiau posibl ar fusnesau annibynnol.
- Trefniadau cynnal a chadw parhaus.
- Rhai elfennau o ddodrefn stryd, yn arbennig Pulse Hubs a pholion baneri.

Y neges gryfaf a oedd yn codi dro ar ôl tro drwy gydol y ymgynghoriad oedd y dylai gwelliannau ffisegol gefnogi hygyrchedd, hyfywedd a llwyddiant masnachol Stryd Fawr Prestatyn, yn hytrach na chael effaith andwyol arni. Dro ar ôl tro, mynegwyd awydd cyson am brosiect sydd, nid yn unig yn gwella edrychiad, ond yn cryfhau canol y dref fel cyrchfan, yn cefnogi busnesau lleol ac yn parhau i fod yn hygyrch i bawb.

## 8. Camau nesaf

Hoffai'r Cyngor achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb am rannu eu meddyliau a'u barn am y dyluniad manwl ar gyfer Stryd Fawr Prestatyn. Bydd hyn yn helpu i lywio'r dyluniad terfynol ar gyfer y cynllun. O ran ymgynghori ac ymgysylltu, ni fyddwn yn ceisio unrhyw adborth pellach.